

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

High Street Dental / Bwrdd Iechyd
Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad arolygu: 23 Gorffennaf
2019

Dyddiad cyhoeddi: 24 Hydref
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	24
4.	Beth nesaf?	27
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	29
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	30
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	31
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	36

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o High Street Dental yn 57 Stryd Fawr, Y Bont-faen, CF71 7AF ar 23 Gorffennaf 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, yr oedd un ohonynt yn arwain yr arolygiad, ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod High Street Dental yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd y cyfarpar deintyddol yn y ddwy ddeintyddfa mewn cyflwr da ac roedd trefniadau ar gyfer dihalogi offer deintyddol yn unol â chanllawiau arfer gorau.

Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau, safonau a chanllawiau arfer gorau cyfredol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais, yn dangos parch ac yn broffesiynol wrth ymdrin â chleifion
- Roedd gwybodaeth dda am iechyd y geg i blant ac oedolion ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros
- Gallai'r cleifion roi adborth ar eu profiadau o'r gofal a'r driniaeth a gafwyd yn y practis
- Roedd asesiadau risg cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau bod y safle a'r arferion clinigol yn addas at y diben
- Roedd mesurau heintiau a rheoli addas ar waith mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen sicrhau bod yr ystafell lle y caiff cyflenwadau deintyddol eu storio yn ddiogel er mwyn lleihau'r risg o fynediad anawdurdodedig
- Mae angen i un o'r deintyddion gael hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed
- Rhaid cynnig mwy o wasanaethau iaith sy'n diwallu eu hanghenion i gleifion sy'n siarad Cymraeg

- Mae angen cadw copi o'r data cofnodion cleifion electronig yn ddiogel oddi ar y safle

Nodwyd gennym nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol o fewn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017:

- Rheoliad 20 o ran cofnodion – nid oedd un o'r deintyddion yn cwblhau cofnodion cleifion yn unol â deddfwriaeth, safonau a chanllawiau arfer gorau cyfredol
- Rheoliad 15 o ran preifatrwydd, urddas a pherthnasau – nid oedd un o'r deintyddion yn sicrhau bod y drws ar gau wrth drin cleifion yn ei ddeintyddfa
- Rheoliadau 13(5a) a 13(5b) o ran ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir – nid oedd gwastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol nac yn ddiogel yn unol â chanllawiau arfer gorau.

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac felly cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae AGIC wedi cael sicrwydd digonol ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae High Street Dental yn darparu gwasanaethau i gleifion yn y Bont-faen a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae dau brif ddeintydd yn berchen ar y practis ar y cyd o dan gytundeb rhannu treuliau. Mae hyn yn golygu bod y ddau ddeintydd yn gweithredu'n annibynnol ond eu bod yn rhannu rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â rhedeg y practis. Mae gan y ddau ddeintydd gofrestrriad ar wahân ag AGIC ac felly caiff y ddau eu cydnabod fel yr unigolyn cyfrifol¹ a'r rheolwr cofrestredig² ar gyfer y practis fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Mae un deintydd yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac mae un deintydd yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig.

¹ Ystyr unigolyn cyfrifol yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017).

² Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roedd gan High Street Dental brosesau addas ar waith er mwyn helpu cleifion i gael profiad cadarnhaol yn y practis.

Roedd y cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ardderchog a dywedwyd wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd y practis yn nodi adborth gan gleifion er mwyn helpu i fonitro ac asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ganddo.

Roedd angen gwelliannau ar unwaith er mwyn sicrhau y caiff urddas a phreifatrwydd y cleifion eu hamddiffyn pan fyddant yn cael triniaeth.

Gellid gwneud mwy er mwyn helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg yn unol â chanllawiau arfer gorau.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 21 o holiaduron.

Yn gyffredinol, roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol ac roedd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ardderchog.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Bob amser yn garedig ac yn rhoi tawelwch meddwl i gleifion nerfus. Yn cael llawer o wybodaeth am yr opsiynau triniaeth. Gallaf bob amser gael apwyntiad ar gyfer mater brys"

"Rwyf bob amser yn fodlon iawn â'r driniaeth, maent yn mynd y tu hwnt i'r gofynion"

"Proffesiynol, cwrtais ac effeithlon"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth addas o wybodaeth ysgrifenedig am ofal ataliol a hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion ei darllen a'i chadw.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y tîm deintyddol hefyd wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal gydag urddas

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ond parchus a phroffesiynol. Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff pan wnaethant ymweld â'r practis.

Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, roeddem yn gallu gweld cleifion yn cael eu trin gan un o'r deintyddion, ac yn gallu clywed y trafodaethau a oedd yn mynd rhagddynt, gan fod drws y ddeintyddfa yn cael ei gadw ar agor. Gwnaethom sylwi hefyd nad oedd modd cau drws y ddeintyddfa yn llawn gan fod clicied y drws yn ddiffygiol. Felly, nid oedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd a oedd yn parchu eu preifatrwydd, eu hurddas a'u cyfrinachedd.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses diffyg cydymffurfio. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Roedd y 9 Egwyddor³ a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros er mwyn sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'r safonau gofal y dylent eu cael gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

³ Mae 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod rhestr prisiau ar gyfer triniaethau preifat a thaliadau ar gyfer deintyddiaeth y GIG wedi'i harddangos i gleifion yn yr ardal aros. Cadarnhaodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn cael gwybod am y costau cysylltiedig cyn cael unrhyw driniaeth.

Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael ar gyfer pob deintydd ar wahân yn ardal aros y practis, a oedd yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi fod un o'r taflenni yn cyfeirio at weithiwr deintyddol proffesiynol nad oedd yn gweithio yn y practis mwyach. Gwnaethom gyngori'r practis y dylid cywiro hyn er mwyn rhoi eglurder i'r cleifion.

Cawsom gopi o ddatganiad o ddiben⁴ y ddau ddeintydd, a oedd hefyd yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelsom fod oriau agor y practis wedi'u harddangos ar ddrws ffrynt y practis a bod enwau a chymwysterau perthnasol y tîm deintyddol wedi'u harddangos yn yr ardal aros yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Roedd polisi gwybodaeth hygyrch ar waith er mwyn helpu'r staff i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd llawer o wybodaeth ysgrifenedig ar gael i gleifion yn Gymraeg. Rhaid i'r practis sicrhau y cynigir gwasanaethau iaith sy'n diwallu eu hanghenion i gleifion sy'n siarad Cymraeg fel rhan naturiol o'u gofal fel sy'n ofynnol gan y Safonau Iechyd a Gofal.

Yn ystod yr arolygiad, adolygwyd sampl o gofnodion cleifion ar gyfer y ddau ddeintydd er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu cadw'n unol â chanllawiau

⁴ Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

proffesiynol. Gwelsom dystiolaeth fod un o'r deintyddion yn cadw cynlluniau triniaeth ysgrifenedig priodol a oedd yn cynnwys nodiadau am y costau a'r opsiynau triniaeth a drafodwyd yn ystod apwyntiadau. Roedd hyn yn unol ag arfer gorau ac yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud dewisiadau hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Fodd bynnag, nid oedd cofnodion cleifion y deintydd arall yn cynnwys nodiadau cyfoes a chywir o'r opsiynau triniaeth a ddarparwyd i'r cleifion. Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch y mater hwn o dan ein proses diffyg cydymffurfio uniongyrchol a cheir manylion amdanynt yn Atodiad B.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y cynigir gwasanaethau iaith sy'n diwallu eu hanghenion i gleifion sy'n siarad Cymraeg fel rhan naturiol o'u gofal fel sy'n ofynnol gan y Safonau Iechyd a Gofal.

Gofal amserol

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad wrth gyrraedd, neu cyn gynted â phosibl.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw gleifion y mae angen triniaeth frys arnynt yn ystod oriau gwaith yn cael eu gweld ar yr un diwrnod. Roedd manylion sut y gallai cleifion gael gafael ar driniaeth frys y tu allan i oriau ar gael yn y taflenni gwybodaeth i gleifion ar gyfer pob deintydd.

Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Mae hyn yn ofynnol gan ganllawiau proffesiynol er mwyn helpu deintydd i ddeall clefydau posibl neu nodi meddyginiaeth a allai effeithio ar driniaeth ddeintyddol claf, a gwelsom

dystiolaeth i gadarnhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi'n briodol yng nghofnodion cleifion electronig y ddau ddeintydd.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â datganiad o ddiben y practis.

Hawliau pobl

Mae'r practis wedi'i leoli ar y llawr cyntaf ac felly, nid yw'r holl gyfleusterau yn hygyrch i gleifion â phroblemau symudedd. Caiff cleifion eu hysbysu'n glir am y materion hygyrchedd hyn yn y taflenni gwybodaeth i gleifion.

Nodwyd gennym fod polisi cyfle cyfartal ar waith yn y practis, a oedd yn dangos ei ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Gwelsom hefyd fod gan y practis bolisi yn nodi'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd ffurflenni adborth papur ar gael er mwyn i'r cleifion roi adborth i'r practis ar y gwasanaethau a ddarperir. Dywedwyd wrthym fod sylwadau gan gleifion yn cael eu monitro a'u trafod fel tîm.

Roedd y wybodaeth am y weithdrefn y dylai'r cleifion ei dilyn i godi cwyn neu bryder wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Roedd y weithdrefn gwyno wedi'i hamlinellu i'r staff mewn polisi cwyno ac roedd yn cydymffurfio â phroses Gweithio i Wella⁵ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi fod angen diwygio'r polisi cwyno gan ei fod yn cynnwys cyfeiriad e-bost anghywir a chyfeiriad anghywir at AGIC.

Nid oedd y practis wedi cael unrhyw gwynion ers cofrestru ag AGIC.

⁵ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon gan gleifion am ofal a thriniaeth yn GIG Cymru.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddiwygio ei bolisi cwyno er mwyn cyfeirio at AGIC fel 'Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru' a chynnwys y cyfeiriad e-bost cywir ar gyfer cysylltu ag AGIC.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offer deintyddol yn unol â chanllawiau arfer gorau.

Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben.

Roedd angen gwelliannau ar unwaith o ran storio deunydd peryglus yn briodol ac yn ddiogel yn unol â chanllawiau arfer gorau.

Nid oedd un o'r deintyddion yn cadw cofnodion cleifion electronig cynhwysfawr yn unol â deddfwriaeth, safonau a chanllawiau arfer gorau cyfredol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant staff y practis ac ymwelwyr â'r practis. Roedd hyn oherwydd bod gan y practis bolisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan a gwelsom fod pob rhan o'r practis yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC ynghylch glendid y practis.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r staff a phobl a oedd yn ymweld â'r practis yn ddigonol pe byddai tân:

- cynhaliwyd asesiad risg tân yn ddiweddar a rhoddwyd camau adferol dilynol ar waith
- roedd y dyfeisiau diffodd tân ym mhob rhan o'r practis wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n briodol

- roedd profion larwm tân yn cael eu cynnal bob mis a'u cofnodi mewn cofnodlyfr
- roedd arwyddion priodol ar gyfer yr allanfeydd i'w defnyddio mewn argyfwng.

Roedd arwydd dim smygu wedi'i arddangos er mwyn atgoffa'r staff a'r cleifion am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg⁶. Roedd poster lechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn y practis er mwyn hysbysu'r staff o'r ffordd orau i amddiffyn eu hiechyd a'u diogelwch personol yn y gweithle.

Roedd dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau y gellir trin unrhyw unigolion yn y practis y mae angen cymorth cyntaf arnynt yn briodol.

Gwelsom fod gan y practis bolisi parhad busnes a thrychineb fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau a oedd yn nodi'r cynlluniau wrth gefn sydd ar waith i sicrhau y gall y practis barhau i weithredu'n ddiogel os bydd argyfwng neu drychineb naturiol.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom dystiolaeth fod mesurau heintiau a rheoli addas ar waith yn y practis mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol â Memorandwm Technegol lechyd Cymru (WHTM) 01-05⁷. Roedd yr ystafell ddihalogi ddynodedig yn fawr ac yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac yn cael ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodlyfr a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi bod yn cynnal gwiriadau dyddiol er mwyn sicrhau bod y cyfarpar sterileiddio yn

⁶ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

⁷ Mae dogfen Memorandwm Technegol lechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

gweithredu'n briodol a'i fod wedi bod yn bodloni'r gofynion dilysu. Cadarnhaodd y staff hefyd fod profion olion protein rheolaidd yn cael eu cynnal ar offer a gaiff ei ailbrosesu er mwyn helpu i nodi achosion o halogiad ar yr wyneb na ellir ei weld drwy gynnal archwiliad gweledol.

Roedd contract ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus yn ddiogel. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei storio'n amhriodol y tu mewn i'r practis. Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch y mater hwn o dan ein proses diffyg cydymffurfio uniongyrchol a cheir manylion amdanynt yn Atodiad B.

Roedd cyfleusterau toiled ar wahân ar gael i'r cleifion yn y practis. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cyfleusterau ar gyfer cynhyrchion mislif ar gael yn nhoiled y staff; rhaid cael bin cynhyrchion mislif ar gyfer y toiled hwn yn unol â rheoliadau iechyd a diogelwch.

Gwnaethom edrych ar gofnodion a oedd yn dangos tystiolaeth bod gan bob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis statws imiwneiddio derbynol rhag Hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis osod bin cynhyrchion misglwyf yng nghyfleusterau toiled y staff.

Rheoli meddyginiaethau

Wrth gael ein tywys o amgylch y practis, gwelsom fod cyflenwadau deintyddol sbâr (meddyginiaethau a chyfarpar) yn cael eu storio mewn ystafell heb ei chloi wrth ymyl yr ardal aros. Roedd y cyflenwadau hyn yn cynnwys cyflenwadau llawfeddygol miniog a chetris gwydr yn cynnwys anesthetig lleol. Argymhellwn y dylai'r practis osod clo ar y drws er mwyn lleihau'r risg y ceir mynediad anawdurdodedig i ddeunyddiau o'r fath.

Gwelsom dystiolaeth fod cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael yn y practis a oedd yn cyrraedd safonau'r Cyngor Dadebru (DU)⁸. Roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u dogfennu o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru brys wedi'u lleoli yn yr un ystafell heb ei chloi â'r cyflenwadau deintyddol sbâr y cyfeirir atynt uchod. Fodd bynnag, o ystyried ein hargymhelliad i sicrhau y caiff yr ystafell hon ei chloi yn y dyfodol gan fod cyflenwadau deintyddol sbâr yn cael eu storio ynddi, argymhellwn hefyd y dylid symud y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru brys i leoliad newydd yn y practis sy'n ddiogel o ran y risg y ceir mynediad anawdurdodedig iddynt ond sy'n parhau'n hygyrch i'r staff mewn argyfwng.

Roedd polisi ar waith a oedd yn nodi'r trefniadau lleol ar gyfer rheoli ac ymdrin ag argyfyngau dadebru neu argyfyngau meddygol, megis clefion yn llewygu, yn ddiogel a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol brys (CPR) cyfredol.

Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad y Cyngor Dadebru (DU) a oedd wedi llunio'r algorithmau dadebru⁹ yn y practis. Gwnaethom argymhell i'r rheolwyr cofrestredig y dylai'r practis ddefnyddio'r algorithmau a lunnir gan y Cyngor Dadebru (DU) er mwyn sicrhau bod y canllawiau yn unol â chanllawiau cenedlaethol; gwnaed hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol a brofwyd gan gleifion drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn¹⁰ er mwyn helpu MHRA i fonitro p'un a yw cynhyrchion gofal iechyd yn cyrraedd lefelau diogelwch derbyniol i gleifion a'r rheini sy'n eu defnyddio.

⁸ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

⁹ Mae algorithm dadebru yn nodi'r camau cychwynnol i'w cymryd er mwyn rheoli amrywiaeth o argyfyngau meddygol ac fe'i cyflwynir ar ffurf siart lif.

¹⁰ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr ystafell a ddefnyddir i storio cyflenwadau deintyddol yn fwy diogel er mwyn lleihau'r risg y ceir mynediad anawdurdodedig at gyflenwadau llawfeddygol miniog a chetris gwydr sy'n cynnwys anesthetig lleol.

Rhaid i'r practis symud y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru i leoliad yn y practis sy'n ddiogel o ran y risg y ceir mynediad anawdurdodedig iddynt ond sy'n parhau'n hygyrch i'r staff mewn argyfwng.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisiau diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu. Roedd y polisiau yn cynnwys manylion cyswllt i'r staff roi gwybod i'r asiantaethau diogelu lleol perthnasol am unrhyw bryderon.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn trafod unrhyw bryderon diogelu gyda'r arweinydd diogelu enwebedig yn y practis yn gyntaf. Nodwyd gennym nad oedd un o'r deintyddion wedi ymgymryd â hyfforddiant perthnasol diweddar o ran diogelu plant ac oedolion agored i niwed; rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi'u hyfforddi'n briodol hyd at lefel 2.

Dywedodd y staff wrthym am y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gofyn am eirdaon gan gyflogwyr blaenorol a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)¹¹ er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn addas i weithio mewn practis deintyddol yn unol â'r rheoliadau.

¹¹ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel 2 o ran diogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol yn y ddwy ddeintyddfa wedi'i gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel a chawsom sicrwydd fod y practis yn gweithredu'n unol â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- roedd y tîm deintyddol wedi cael hyfforddiant cyffredol ar ymbelydredd ïoneiddio
- roedd polisi ymbelydredd cynhwysfawr ar waith ac roedd y rheolau lleol¹² wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau ymarferol i sicrhau y caiff amlygiad staff i ymbelydredd ei gyfyngu
- roedd y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis wedi cynnal rhai archwiliadau clinigol yn ddiweddar er mwyn dadansoddi ansawdd y gofal deintyddol a'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion ac

¹² Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth.

i nodi meysydd i'w gwella. Gwelsom fod archwiliadau o ragnodi gwrthfotigau, rheoli heintiau ac ansawdd delweddau pelydrau-X wedi'u cwblhau. Argymhellwn y dylid ychwanegu mwy o weithgareddau archwilio, gan gynnwys trefniadau integredig ar gyfer rhoi'r gorau i smygu a chadw cofnodion, i'r amserlen o archwiliadau er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a'r driniaeth a ddarperir ymhellach.

Argymhellwn y dylid nodi'r gweithgareddau archwilio a wneir gan y practis mewn polisi ar y trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Efallai yr hoffai'r practis hefyd ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru¹³ sy'n annog timau practisau deintyddol i gydweithio er mwyn nodi meysydd i'w gwella yn seiliedig ar ganllawiau proffesiynol a gofynion deddfwriaethol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis ddatblygu polisi sy'n nodi ei drefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi diogelu data ar waith yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion cleifion ar ffurf electronig a dywedwyd wrthym fod copi o'r data yn cael ei wneud yn rheolaidd i'w ddefnyddio i adfer y data gwreiddiol pe byddai data yn cael eu colli. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym hefyd fod y copi o'r data yn cael ei gadw yn y practis ac argymhellwn y dylai'r practis storio'r copi o'r data yn ddiogel oddi ar y safle yn y dyfodol er mwyn sicrhau na chaiff ei golli os bydd digwyddiad difrifol yn y practis.

¹³ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

Gwelsom fod yr hen gofnodion cleifion papur yn cael eu cadw'n unol â'r canllawiau cadw perthnasol a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis storio'r copi o'i ddata cofnodion cleifion electronig yn ddiogel oddi ar y safle er mwyn sicrhau na chaiff ei golli os bydd digwyddiad difrifol yn y practis.

Cadw cofnodion

Nodwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad ein bod wedi adolygu sampl o gofnodion cleifion y ddau ddeintydd. Gwelsom dystiolaeth fod un o'r deintyddion sy'n darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat yn cadw cofnodion cleifion i safon dda er mwyn helpu'r practis i ddarparu gofal o ansawdd i gleifion. Mae hyn oherwydd bod y cofnodion cleifion a welsom:

- yn glir, yn ddarllenadwy ac yn dogfennu trafodaethau a gafwyd â chleifion am gostau, risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt
- yn cynnwys tystiolaeth bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i gael triniaeth
- yn cynnwys dogfennaeth radiograffi briodol yn unol â chanllawiau'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)
- yn cynnwys cyfnodau adalw deintyddol priodol i gleifion yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Fodd bynnag, yn ystod ein hadolygiad o gofnodion cleifion y deintydd arall, a oedd yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat yn unig, nodwyd y canlynol:

- diffyg dogfennaeth briodol a manylion anghyflawn wrth gofnodi unrhyw wrthfotigau a ragnodwyd i gleifion
- nad oedd atgyfeiriadau cleifion (i gael ymchwiliadau neu driniaeth bellach) yn cael eu monitro, er enghraifft er mwyn cadarnhau bod yr ysbyty perthnasol wedi derbyn unrhyw atgyfeiriadau cleifion brys o fewn y terfyn amser priodol

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses diffyg cydymffurfio uniongyrchol a cheir manylion amdanynt yn Atodiad B.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth fod gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith, gan gynnwys proses flynyddol ar gyfer arfarnu staff a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda ac roeddent wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Argymhellwn y dylid diweddarau'r polisi chwythu'r chwiban er mwyn rhestru AGIC a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol fel sefydliadau y gall y staff gysylltu â nhw os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

Gwelsom fod y polisiâu wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r rheoliadau a bod yn rhaid i'r staff lofnodi pob polisi er mwyn dangos eu bod wedi ei ddarllen a'i ddeall.

Cadarnhaodd y ddau ddeintydd eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y rheoliadau fel rheolwyr cofrestredig o ran unrhyw hysbysiadau y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC, er enghraifft os ceir anaf difrifol i gleifion.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer.

Nodwyd gennym fod tystysgrifau wedi'u harddangos a oedd yn dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus er mwyn amddiffyn y practis rhag hawliadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig a bod y practis wedi'i

gofrestru'n gyfreithiol i ddarparu gwasanaethau deintyddol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn y dylid diweddarau'r polisi chwythu'r chwiban er mwyn rhestru AGIC a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol fel sefydliadau y gall y staff gysylltu â nhw os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd trefniadau llywodraethu addas ar waith yn y practis. Roedd cyfleoedd hyfforddi yn cael eu cynnig i bob aelod o'r staff a gwelsom dystysgrifau ar gyfer y staff a oedd yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Gwelsom gofnodion a oedd yn cadarnhau bod arfarniadau blynyddol wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, gan gynnig cyfleoedd i'r staff glywed adborth am eu perfformiad ac adolygu unrhyw gyfleoedd DPP.

Cynhaliwyd cyfarfodydd tîm yn y practis o leiaf unwaith y mis er mwyn cynnig cyfle i'r staff nodi gwersi a ddysgwyd a chodi unrhyw broblemau y gallent fod wedi'u hwynebu. Cymerir cofnodion o bob cyfarfod tîm fel mater o drefn, ac fe'u hanfonir at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff a oedd yn absennol yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd.

Mae'n ofynnol bod gan aelodau o staff dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn dechrau yn eu swydd, a gwelsom dystiolaeth bod tystysgrifau addas ar gael ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio yn y practis.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn llwyddo i sicrhau bod nifer briodol o staff cymwys yn gweithio yn y practis bob amser, heb fod angen cyflogi nyrsys deintyddol locwm dros dro. Roedd polisi recriwtio ar waith a oedd yn nodi'r broses i'w dilyn wrth recriwtio darpar aelodau newydd o staff ac roedd yn cynnwys gwiriadau cyn-cyflogi priodol y byddai'r practis yn eu cynnal er mwyn sicrhau bod aelodau newydd o staff yn meddu ar y cymwysterau addas ac wedi'u diogelu'n addas er mwyn gweithio gyda chleifion.

Roedd polisi sefydlu ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn sicrhau bod aelodau newydd o staff yn cael croeso ac i'w helpu i feithrin dealltwriaeth effeithiol o'u swydd newydd.

Roedd cyfleusterau hefyd ar gael i'r staff storio eu heiddo personol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: High Street Dental

Dyddiad arolygu: 23 Gorffennaf 2019

Mae'r tablau isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i reolwr cofrestredig High Street Dental sicrhau ei fod yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol, a bod systemau priodol ar waith ganddo i sicrhau bod ei gofnodion deintyddol yn gyfredol, yn gywir ac yn unol â deddfwriaeth, safonau a chanllawiau arfer gorau cyfredol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20	Ers bore dydd Mercher 24 Gorffennaf 2019, mae pob cofnod o hanes meddygol cleifion yn cael ei lofnodi gan y claf a gennyf fi ac yn cael ei wirio eto er mwyn sicrhau cywirdeb cyn ei sganio i'r cyfrifiadur. Roedd pob ffurflen GDPR hefyd yn cael ei gwirio er mwyn sicrhau cywirdeb ac yn cael ei gwirio eto gennyf fi cyn ei sganio i'r cyfrifiadur. Yn ogystal, dangosodd Rebecca	Mr Saleem Ikram	Dechreuodd ar 24/7/2019 a chaiff ei weithredu o hyn ymlaen

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Close i mi sut i drosglwyddo gwybodaeth i'r feddalwedd newydd yn gywir.</p> <p>Ers 24/7/2019, rwyf hefyd wedi gwneud ymdrech i gadarnhau, gan ddefnyddio hen gofnodion papur, fy mod wedi mewnforio gwybodaeth berthnasol a phwysig, a byddaf yn parhau â'r drefn hon.</p> <p>Rwyf hefyd wedi dechrau ychwanegu mwy o hanes cymdeithasol y claf a chynnwys gwybodaeth berthnasol er mwyn helpu i wella iechyd y claf.</p> <p>Cynhelir ymarfer meddalwedd gyfrifiadurol ar 26/7/2019 a gobeithio y bydd hynny'n cael gwared ar unrhyw broblemau pellach wrth gadw cofnodion.</p> <p>Mae neidlen ar gael ar gofnodion cleifion er mwyn tynnu sylw at rybudd meddygol, ond rwyf yn</p>		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>bwriadu defnyddio'r cyfleuster hwn i ddangos bod claf wedi cael gwrthfotigau, a allai fod yn ddefnyddiol yn ystod archwiliadau.</p> <p>I gloi, mae'r holl ymdrechion wedi dechrau, a byddant yn parhau.</p>		
<p>Rhaid i reolwr cofrestredig High Street Dental drwsio drws ei ddeintyddfa er mwyn sicrhau y gellir ei gau'n llwyr, a rhaid iddo sicrhau bod y drws wedi'i gau'n llwyr wrth drin cleifion neu wrth siarad â chleifion yn ei ddeintyddfa er mwyn amddiffyn a pharchu preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd ei gleifion.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p> <p>Rheoliad 15</p>	<p>Tynnwyd clicied fewnol drws fy neintyddfa ar fore 24/7/2019, a nodwyd y rhan ganol nad oedd yn gweithio. Caiff rhan newydd ei phrynu y penwythnos hwn o Screw Fix.</p> <p>Byddaf yn gosod y rhan newydd yn y clo ddydd Llun 29/7/2019.</p> <p>Tan hynny, ac mae'r cam gweithredu hwn eisoes wedi'i roi ar waith (ers bore 24/7/2019), caiff y drws ei gadw ar gau gan barchu preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion yn unol â'r rheoliadau yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)</p>	<p>Mr Saleem Ikram</p>	<p>29 neu 30 Gorffennaf 2019</p>

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		2017.		
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gwastraff gofal iechyd yn cael ei storio'n briodol ac yn ddiogel yn y practis deintyddol yn unol â chanllawiau arfer gorau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliadau 13(5a) a 13(5b)	Gosodwyd arwydd rhybudd ar ddrws y cwpwrdd storio gwastraff (24/7/2019). Gosodais glo y mae angen allwedd ar ei gyfer ar y drws ar 24/7/2019.	Mr Saleem Ikram	Cwblhawyd

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Saleem Ikram

Swydd: Rheolwr Cofrestredig Smiles SI Ltd

Dyddiad: 26 Gorffennaf 2019

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gwastraff gofal iechyd yn cael ei storio'n briodol ac yn ddiogel yn y practis deintyddol yn unol â chanllawiau arfer gorau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliadau 13(5a) a 13(5b)	Caiff y gwastraff clinigol ei storio mewn bagiau oren a chânt eu clymu'n ddiogel unwaith y byddant yn llawn a'u gosod mewn cwpwrdd yn yr ystafell staff. Mae gan ddrws y cwpwrdd storio glo erbyn hyn.	Rebecca Close	Cwblhawyd

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Rebecca Close

Swydd: Rheolwr Cofrestredig High Street Dental

Dyddiad: 30 Gorffennaf 2019

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: High Street Dental

Dyddiad arolygu: 23 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r practis sicrhau y cynigir gwasanaethau iaith sy'n diwallu eu hanghenion i gleifion sy'n siarad Cymraeg fel rhan naturiol o'u gofal fel sy'n ofynnol gan y Safonau Iechyd a Gofal.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 3.2	Gellir trefnu i ddiwallu anghenion cyfathrebu cleifion y mae angen cymorth arnynt i siarad yn Gymraeg gan ddefnyddio'r Llinell Iaith. Mae ein hylenydd yn siarad Cymraeg os bydd angen.	Saleem Ikram a Rebecca Close	Cwblhawyd
Rhaid i'r practis ddiwygio ei bolisi cwyno er mwyn cyfeirio at AGIC fel 'Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru' a chynnwys y cyfeiriad e-bost cywir ar gyfer cysylltu ag AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad	Diwygiwyd y polisi cwyno ym mis Awst 2019 er mwyn cyfeirio at AGIC fel Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chynhwyswyd y cyfeiriad e-bost cywir ar gyfer cysylltu ag AGIC.	Saleem Ikram a Rebecca Close	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	21(4a)			
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r practis osod bin cynhyrchion misglwyf yng nghyfleusterau toiled y staff.	Canllawiau HSE – Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith	Ar 3/8/2019, cysylltwyd â Canon Hygiene, sef ein cwmni rheoli gwastraff, ac archebwyd bin cynhyrchion misglwyf newydd. Dylai gyrraedd o fewn yr wythnos nesaf.	Saleem Ikram a Rebecca Close	Cwblhawyd.
Rhaid i'r practis sicrhau bod yr ystafell a ddefnyddir i storio cyflenwadau deintyddol yn fwy diogel er mwyn lleihau'r risg y ceir mynediad anawdurdodedig at gyflenwadau llawfeddygol miniog a chetris gwydr sy'n cynnwys anesthetig lleol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 13(4a)	Ar 2/9/2019, archebwyd clo di-allwedd (cod cyfunol) ac mae wedi cyrraedd. Caiff ei osod ar y drws o fewn y 2/3 wythnos nesaf.	Saleem Ikram a Rebecca Close	O fewn y 2/3 wythnos nesaf.
Rhaid i'r practis symud y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru i leoliad yn y practis sy'n ddiogel o ran y risg y ceir mynediad anawdurdodedig iddynt ond sy'n parhau'n hygyrch i'r staff mewn argyfwng.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 13(1b)	Mae'r cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru eisoes wedi'u symud i leoliad diogel y tu ôl i ddesg y dderbynfa.	Saleem Ikram a Rebecca Close	Cwblhawyd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 2.6			
Mae angen i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel 2 o ran diogelu plant ac oedolion agored i niwed.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 14 Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 2.7	Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau pob lefel o'r hyfforddiant diogelu plant ac oedolion agored i niwed.	Saleem Ikram a Rebecca Close	Cwblhawyd
Mae angen i'r practis ddatblygu polisi sy'n nodi ei drefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 8(1n)	Mae Rebecca Close wrthi'n cynnal archwiliadau ar gyfer croes-heintio a rhagnodi gwrthficrobaidd. Mae Saleem Ikram wrthi'n cynnal archwiliadau radioleg. Fodd bynnag, dechreuodd Saleem Ikram Archwiliad Gwrthficrobaidd ar ddiwedd mis Gorffennaf 2019 hefyd.	Saleem Ikram a Rebecca Close	Amserlen barhaus o ran cynnal yr archwiliadau, ond caiff y polisi ei ysgrifennu yn ystod y 2/3 wythnos

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Cynhelir archwiliadau eraill ar WHTM 01-05 a rheoli gwastraff hefyd. O ran yr uchod, caiff polisi ei ddatblygu a fydd yn nodi y caiff yr archwiliadau hyn eu cynnal bob 6 mis.		nesaf, a'i gadw yn ffolder polisiâu'r practis.
Mae angen i'r practis storio'r copi o'i ddata cofnodion cleifion electronig yn ddiogel oddi ar y safle er mwyn sicrhau na chaiff ei golli os bydd digwyddiad difrifol yn y practis.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 3.4	Mae'r derbynnydd bellach yn mynd â'r copi electronig (gyriant caled) oddi ar y safle bob nos ac yn ei ddychwelyd.	Saleem Ikram a Rebecca Close	Cwblhawyd.
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Argymhellwn y dylid diweddarw'r polisi chwythu'r chwiban er mwyn rhestru AGIC a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol fel sefydliadau y gall y staff gysylltu â nhw os bydd ganddynt unrhyw bryderon.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 17(3e)	Diweddarwyd y polisi chwythu'r chwiban ym mis Awst 2019 i gynnwys AGIC a sefydliadau gwasanaethau cwynion deintyddol eraill, fel y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	Saleem Ikram a Rebecca Close	Cwblhawyd.

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Saleem Ikram a Rebecca Close

Swydd: Prif Ddeintyddion a Rheolwyr Cofrestredig

Dyddiad: 7 Medi 2019